Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canllawiau i Ysgolion ar Brentisiaethau yng Nghymru

Awst 2018

Prentisiaethau
Apprenticeships

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

Cynnwys

	Tudalen
Nodyn Eglurhaol	**3**
1 Golwg Gyffredinol ar Bolisi Prentisiaethau yng Nghymru	**4-5**
2 Beth yw Prentisiaeth?	**6**
3 Yr Ardoll Prentisiaethau a'r hyn y mae'n ei olygu i Gymru	**7**
4 Camau Allweddol i Ysgolion eu hystyried	**8-9**
5 Cwestiynau Cyffredin	**10-11**
Atodiad A – Prentisiaethau perthnasol i ysgolion	**12-14**
Atodiad B – Rhestr o ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith a gymeradwywyd	**15-16**
Atodiad C – Gwella hygyrchedd Prentisiaethau mewn Ysgolion	**17-18**
Atodiad D – Papur Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus – "Egwyddorion a chanllawiau i gefnogi cynllunio gweithlu ar y cyd mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru	**19**

Nodyn Eglurhaol

Mae'r Uned Brentisiaethau o fewn Llywodraeth Cymru wedi cael y dasg o sicrhau bod pob sector yng Nghymru yn deall yr arlwy o brentisiaethau, a bod prentisiaethau'n adlewyrchu anghenion cyfredol diwydiant a'r galw yn y dyfodol.

Mae'r canllawiau hyn yn darparu gwybodaeth benodol i ysgolion yng Nghymru ynghylch beth yw prentisiaethau, sut y gall eich ysgol eu defnyddio, a sut y mae'r ardoll prentisiaethau'n berthnasol i ysgolion. Mae dolenni at arweiniad a chefnogaeth bellach hefyd.

Ar gyfer pwy mae'r cyhoeddiad?

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer arweinwyr ysgolion a chyrff llywodraethu ym mhob Ysgol yng Nghymru, a byddant yn ddefnyddiol i awdurdodau lleol hefyd.

Camau Allweddol i ysgolion eu cymryd ar ôl darllen y canllawiau hyn;

- Ystyriwch sut y gallwch gyflwyno neu ddatblygu prentisiaethau yn eich ysgol, boed drwy recriwtio staff newydd neu uwchsgilio'r gweithlu presennol.

- Ystyriwch y llwybrau / fframweithiau hyfforddi sydd ar gael drwy brentisiaethau – Atodiad A

- Beth yw'r ffordd orau i'r arlwy gwrdd â'ch anghenion?

Gobeithio y bydd y canllawiau yn eich cynorthwyo i ddeall sut y gallwch gael gafael ar gyllid i brentisiaethau yng Nghymru

Llwybrau adborth / canllawiau a chefnogaeth bellach

Os oes gennych chi unrhyw adborth, cwestiynau neu eich bod angen rhagor o wybodaeth, gallwch anfon e-bost at

DfES-ApprenticeshipUnit@gov.wales

1 Golwg Gyffredinol ar Bolisi Prentisiaethau yng Nghymru

Cefndir – Ein Polisi a'n Blaenoriaethau

Ym mis Chwefror 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Bolisi Sgiliau Prentisiaethau;

http://gov.wales/docs/dcells/publications/170206-app-policy-plan-en-v3.pdf

Nod y polisi yw alinio prentisiaethau ag anghenion economi Cymru fel bod y system sgiliau'n ymateb i newid mewn diwydiant, yn ogystal â buddsoddi mewn hyfforddiant a fydd yn darparu elw economaidd a chymdeithasol.

Mae prentisiaethau yn parhau i fod yn brif raglen i ni ac maent wedi profi eu heffeithlonrwydd yn y farchnad gyda chyflogwyr a phobl ifanc fel ei gilydd. Mae Cymru wedi datblygu Rhaglen Brentisiaethau lwyddiannus iawn dros y blynyddoedd diwethaf mewn partneriaeth â busnesau yng Nghymru gyda ffocws cryf ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae cyflogwyr a phrentisiaid yn gweld gwerth mawr yn y rhaglen ac mae cyfraddau llwyddiant y fframwaith yn parhau'n uchel gyda chyfraddau cwblhau'n gyson dros 80 y cant.

Ein nod yw darparu isafswm o 100,000 o leoedd i brentisiaid hyd at 2021, i gyflawni a chefnogi'r broses o alinio'r sgiliau y mae pobl yn eu hennill â'r sgiliau y mae'r economi eu hangen. Rydym am i Gymru fod yn wlad sy'n rhoi parch cyfartal i addysg alwedigaethol.

Rydym yn cydnabod yr angen i Gymru wreiddio datblygu sgiliau mewn arferion busnes o ddydd i ddydd. Mae'n galw am ddatblygu gweithlu proffesiynol yn barhaus, gweithlu sy'n cael ei gydnabod a'i wobrwyo, gan sicrhau gweithlu'r dyfodol drwy gynnig yr hyn y mae'n rhaid ei weld fel gyrfa o ddewis a dewis amgen i Addysg Uwch.

Blaenoriaethau ar gyfer Recriwtio Prentisiaid

Dyma ein blaenoriaethau darparu ar gyfer Cymru hyd at 2021:

- **Mynd i'r afael â phrinder sgiliau dybryd** drwy ymestyn a datblygu prentisiaethau, yn enwedig mewn sectorau twf.
- **Datblygu sgiliau lefel uwch,** yn canolbwyntio ar brentisiaethau ar lefel 3 ac uwch, lle mae'r manteision yn tueddu i fod yn fwy ac ar y lefel a gyflawnir gan y gwledydd mwyaf llwyddiannus yn Ewrop.
- **Gwella Mynediad, Cydraddoldeb a Chyfle Cyfartal,** drwy gefnogi pobl i fynd i gyflogaeth sy'n newydd i'r gweithle a chanolbwyntio ar symud ymlaen yn y gweithle.

- **Darparu Prentisiaethau yn y Gymraeg,** drwy gryfhau cyfleoedd i ymgymryd â phrentisiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

- **Cynyddu nifer y prentisiaid rhwng 16-19 oed** - gan gynnwys cynyddu nifer y rhai yn gadael ysgol sy'n mynd ymlaen i brentisiaeth.

- **Datblygu llwybrau sgiliau** – Integreiddio prentisiaethau â'r system addysg ehangach.

- **Sefydlu system newydd ar gyfer adolygu a datblygu fframweithiau** er mwyn sicrhau bod prentisiaethau'n cael eu cynllunio i gwrdd ag anghenion cyflogwyr a'u bod yn ymateb i newidiadau mewn diwydiant.

2 Beth yw Prentisiaeth?

Mae prentisiaeth yn ffordd o ennill cyflog a gweithio ochr yn ochr â staff profiadol i ennill sgiliau penodol i'r swydd.

Rhaid i brentis gael ei gyflogi am leiafswm o 16 awr yr wythnos a bod yn derbyn o leiaf yr isafswm cyflog i brentisiaid neu'r cyflog cysylltiedig ag oed. Mae Llywodraeth Cymru'n talu am yr elfen hyfforddi a'r cyflogwr yn talu'r costau cyflogaeth, megis y cyflog. Mae'r cyllid yn cefnogi prentisiaid newydd yn ogystal â rhai sydd eisoes mewn cyflogaeth ac yn dymuno uwchsgilio.

Fel arfer, mae'n cymryd 2 neu 3 blynedd i gwblhau prentisiaeth. Mae'n cyfuno hyfforddiant ymarferol yn y gwaith ag astudio (un diwrnod yr wythnos fel arfer), gan weithio tuag at **Fframwaith Prentisiaeth Cymru**.

Caiff prentisiaethau yng Nghymru eu darparu drwy rwydwaith o **19 o ddarparwyr hyfforddiant a gymeradwywyd ac y sicrhawyd eu hansawdd (gweler Atodiad B)**. Eu nod yw mentora, cefnogi a chynghori cyflogwyr ac unigolion ynghylch pob agwedd ar y rhaglen. Bydd prentisiaid yn dewis Fframwaith Prentisiaeth priodol i'w gwblhau. Mae pob fframwaith yn cynnwys **cymwysterau Cymhwysedd, Gwybodaeth a Sgiliau Hanfodol perthnasol.**

Rhoddir manylion gofynion **lefel mynediad** o fewn pob fframwaith.

Mae oddeutu 190 o wahanol swyddi ar gael ar ystod eang o sectorau yn cwmpasu'r lefelau canlynol:

- Prentisiaeth Sylfaen — Lefel 2 (lefel TGAU)
- Prentisiaethau — Lefel 3 (Lefel A)
- Prentisiaethau Uwch — Lefel 4-5 (HNC/HND/FD)

- Prentisiaethau Gradd — Lefel 6 – *mae'r rhain wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd ym maes TGCh a Pheirianneg*

Mae prentisiaethau yn ffordd wych i ysgolion wella sylfaen sgiliau eu gweithlu. Maent yn ffordd ddibynadwy o recriwtio staff newydd ac ail-hyfforddi neu uwchsgilio staff presennol o bob oed a lefel o brofiad, mewn amrywiaeth eang o swyddi. Gallwch eu defnyddio i ddarparu hyfforddiant sydd wedi'i deilwra i gwrdd ag anghenion a gofynion eich ysgol chi, gyda'r dysgu'n digwydd yn y gweithle yn ogystal â thrwy hyfforddiant ffurfiol, er mwyn sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl a chael yr effaith orau.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am Brentisiaethau ar wefan Llywodraeth Cymru;

http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/apprenticeships/?lang=en

3 Yr Ardoll Prentisiaethau a'r hyn y mae'n ei olygu i Gymru

Mae'r **Ardoll Prentisiaethau yn dreth ar gyflogaeth gan Lywodraeth y DU** a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2017. Bydd pob cyflogwr (sector Cyhoeddus a Phreifat a'r Trydydd sector) sydd â bil cyflogau o fwy na £3 miliwn y flwyddyn yn talu'r ardoll.

Cyfradd yr ardoll yw **0.5% o fil cyflogau cyflogwyr** ar sail cyfanswm enillion cyflogeion ac eithrio taliadau, megis buddion ymarferol.

Bydd cyflogeion yn cael **lwfans ardoll o £15,000 y flwyddyn** i'w osod yn erbyn yr ardoll a delir i Gyllid a Thollau EM drwy'r broses Talu Wrth Ennill (PAYE). Mae eithriad ar gyfer Cyflogwyr Dosbarth 1 NIC ar gyfer prentisiaid cymwys o dan 25 oed.

Mae Cymru'n derbyn ei chyfran o'r Ardoll Prentisiaethau drwy gyllid canlyniadol Barnett ochr yn ochr â Gogledd Iwerddon a'r Alban. Ar gyfer 2017/18 a 2018/19 nid yw hyn yn cynrychioli cyfran poblogaeth yr ardoll a ragwelir ac i gydnabod hyn mae'r Trysorlys wedi darparu swm bychan o gyllid ychwanegol yn y blynyddoedd hyn.

Rydym yn cydnabod y baich ariannol ychwanegol y bydd yr ardoll yn ei roi ar ysgwyddau cyflogwyr y sector cyhoeddus. Ni fu ymgynghori gyda Chymru, yr Alban na Gogledd Iwerddon ynghylch cyflwyno'r ardoll, nac am ei gwmpas na'i gyfradd.

Fel cefndir: dyma ddatganiad i'r wasg o fis Chwefror 2016:

http://gov.wales/newsroom/educationandskills/2016/concern-over-apprenticeship-levy/?lang=en

4 Camau Allweddol i Ysgolion eu hystyried

CAM 1: Yr Ardoll Prentisiaethau a'r effaith ar gyllidebau

Gall pob ysgol gael mynediad at gyllid ar gyfer prentisiaethau, waeth os ydynt yn talu'r Ardoll ai peidio.

Dylai ysgolion drafod yn uniongyrchol â'u Hawdurdod Lleol i lwyr ddeall effaith yr Ardoll a sut y bydd hyn yn effeithio ar gyllidebau ysgolion.

CAM 2: Ystyried y llwybrau prentisiaeth yr hoffech gael mynediad atynt o bosibl

Mae rhestr gyflawn o lwybrau prentisiaeth a fframweithiau perthnasol ar gael yn **Atodiad A.**

Mae ysgolion yn cyflogi staff mewn ystod eang o rolau sy'n alinio â phrentisiaethau. Cofiwch fod prentisiaethau ar gyfer cyflogeion presennol yn ogystal â recriwtiaid newydd, felly mae'r ddau yn ffordd o gael gafael ar ddoniau newydd, ac ail-hyfforddi neu uwchsgilio'ch staff cyfredol.

Wrth ystyried sut i ddefnyddio prentisiaethau yn eich ysgol, efallai yr hoffech feddwl am y canlynol:

- A ydy ysgolion eraill yn fy ardal i yn defnyddio prentisiaethau, ac os felly beth alla' i ddysgu oddi wrthyn nhw?
- Pa sgiliau sydd eu hangen ar ein cyflogeion yn awr ac yn y dyfodol ac a all prentisiaethau helpu gyda hyn?
- Sut mae'r rolau yn ein hysgol ni yn cyd-fynd â'r prentisiaethau sydd ar gael ar hyn o bryd?

Bydd gwefan **Fframweithiau Prentisiaethau Ar-lein (AFO)** yn darparu manylion llawn i chi am yr holl fframweithiau sydd ar gael (chwiliwch dan Cymru neu Sector gan fod y wefan hon yn ymwneud â'r DU gyfan). Dim ond ariannu fframweithiau y mae Cymru, ac nid yw'n symud at y Safonau Diwydiant fel yn Lloegr.

http://www.afo.sscalliance.org/

Mae pob fframwaith yn dilyn fformat a chynnwys safonol; mae'r rhain yn cynnwys cymwysterau **Cymhwysedd, Gwybodaeth a Sgiliau** Hanfodol (cyfathrebu, cymhwyso rhif a digidol) ac yn manylu ar y Llwybrau a'r lefelau sydd ar gael.

CAM 3: Cael gafael ar gefnogaeth a chyllid ar gyfer prentisiaethau yng Nghymru

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn cael gafael ar gyllid ar gyfer prentisiaethau, gallwch ganfod rhagor o wybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru neu drwy Busnes Cymru. Dolenni fel a ganlyn;

http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/apprenticeships/?lang=en

Mae modd gweld manylion cysylltu'r 19 o ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith yn **ATODIAD B** y canllawiau hyn.

5 CWESTIYNAU CYFFREDIN

1. A fydd system talebau digidol yn cael ei rhoi ar waith yng Nghymru yn yr un modd ag yn Lloegr?

Mae'r system yn Lloegr yn gweithredu drwy gyfrwng talebau digidol / cyfrif ar-lein y ceir mynediad ato drwy'r **'gwasanaeth prentisiaeth'** newydd. Caiff cyflogwyr reoli'r 'cyllid' yn eu cyfrif a diwallu a rheoli eu gofynion hyfforddi eu hunain gyda'r darparwr hyfforddiant o'u dewis.

Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i gyflwyno'r system talebau digidol na safonau prentisiaethau fel yn Lloegr. Nid ydym wedi gweld tystiolaeth sy'n dangos y byddai system talebau yn gwella ansawdd y system gan y credir ei bod yn creu biwrocratiaeth ychwanegol ar gyfer cyflogwyr ac ansicrwydd ynghylch sut y byddai cyflogwyr nad ydynt yn talu'r ardoll yn cael eu cefnogi. Mae'n ddyddiau cynnar o hyd yn natblygiad y safonau ac rydym yn cadw golwg ar eu cynnydd yn ogystal â derbyn adborth gan y cwsmer/diwydiant.

2. Pam mae'r system prentisiaethau'n wahanol yng Nghymru?

Mae sgiliau, gan gynnwys prentisiaethau, yn fater sydd wedi cael ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu ei system prentisiaethau i fodloni anghenion a blaenoriaethau Cymru. Mae Cymru yn canolbwyntio ar ansawdd i sicrhau gwerth am arian. Mae darparu a chyllido prentisiaethau yn cael ei flaenoriaethu ar sail anghenion yr economi a chyflogwyr. Er enghraifft, rydym wedi sefydlu **Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol** i gysylltu â chyflogwyr ac i roi'r wybodaeth i ni am y sgiliau sydd eu hangen a'r bylchau mewn sgiliau. Rydym yn blaenoriaethu ein darpariaeth yn unol â'r anghenion y mae tystiolaeth ar gael ohonynt.

Ceir 3 o Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol;

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (NWEAB)

Cyswllt Sian Lloyd-Roberts: sianlloydroberts@gwynedd.llyw.cymru neu www.northwaleseab.co.uk

Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCRSP), a oedd yn arfer cael ei hadnabod fel Partneriaeth Dysgu, Medrau ac Arloesi De Ddwyrain Cymru (LSkIP)

Cyswllt Elizabeth Fitzgerald: elizabeth.fitzgerald@wlga.gov.uk neu www.wlga.gov.uk

Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol De Orllewin a Chanolbarth Cymru

Cyswllt Jane Lewis: jelewis@carmarthenshire.gov.uk neu www.rip.org.uk

Atodiad A – Prentisiaethau perthnasol i ysgolion

Mae ysgolion yn cyflogi staff mewn **ystod eang o swyddogaethau**, a gall llawer ohonynt fod yn addas ar gyfer defnyddio prentisiaethau i gefnogi hyfforddiant a datblygu.

Mae **Fframweithiau Prentisiaethau** yn nodi'r wybodaeth graidd; y sgiliau a'r ymddygiad y bydd angen i brentisiaid eu harddangos er mwyn bod yn gwbl gymwys mewn galwedigaeth. Rhoddir manylion gofynion a chymwysterau **lefel mynediad** o fewn pob fframwaith hefyd.

Lefelau Prentisiaethau;

- **Prentisiaeth Sylfaen** (Lefel 2) – Mae prentisiaid sylfaen yn astudio tuag at gymwysterau cyfwerth â 5 TGAU neu NVQ Lefel 2 ac yn aml yn mynd ymlaen i ymgymryd â Phrentisiaethau a Phrentisiaethau Uwch.
- **Prentisiaeth** (Lefel 3) – Mae prentisiaid yn ennill sgiliau gwerthfawr wrth weithio, tra'n astudio tuag at gymhwyster sy'n cael cydnabyddiaeth genedlaethol ac yn gyfwerth â TGAU, 2 Lefel A ac NVQ lefel 3.
- **Prentisiaeth Uwch** (Lefel 4+) – Mae Prentisiaethau Uwch yn galluogi unigolion i weithio tuag at gymhwyster sy'n gyfwerth â gradd sylfaen neu radd anrhydedd.

Galwedigaeth	Fframwaith prentisiaethau	Swydd(i)
Llwybrau Addysgu a Chynorthwyydd Addysgu;		
Cynorthwywyr Addysgu	Cefnogi Addysgu a Dysgu mewn Ysgolion (Lefelau 2 a 3) *Noder – Caiff llwybrau dilyniant o Lefel 2 eu hamlinellu ar dudalennau 17 ac 18 y fframwaith*	Lefel 2: Cynorthwyydd Addysgu Cynorthwyydd Dosbarth Cynorthwyydd Cymorth Dysgu Lefel 3: Fel yr uchod, ynghyd â; Chynorthwyydd Anghenion Arbennig Cynorthwyydd Anghenion Dysgu Ychwanegol Cynorthwyydd Cefnogi Ymddygiad Cynorthwyydd Cymorth Bugeiliol / Lles Cynorthwyydd Cefnogi Dwyieithrwydd Cynorthwyydd Cyfnod Sylfaen Hyfforddwr Dysgu Arweinydd Tîm Goruchwyliwr Llanw

Cynorthwywyr Addysgu	Cymorth Dysgu (Lefel 3)	Ymarferydd Cefnogi Dysgu
Cynorthwywyr Addysgu	Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (Lefel 2-4+)	Lefel 2: Cynorthwyydd Meithrinfa Cynorthwyydd Cylch Y Tu Allan i'r Ysgol Cynorthwyydd Gofal Plant Cynorthwyydd Cylch Chwarae Cynorthwyydd Crèche Lefel 3: Ymarferydd Meithrinfa Uwch Ymarferydd Meithrinfa / Arweinydd Ystafell Arweinydd / Ymarferydd Crèche Lefel 4: Uwch Ymarferydd (addas ar gyfer dpp i arweinyddion ystafell, uwch ymarferwyr, dirprwy reolwyr neu reolwyr cynorthwyol sy'n gweithio gyda phlant mewn lleoliadau'r blynyddoedd cynnar a gofal plant dan 7 oed ac sydd â rhyw lefel o weithgarwch rheoli neu arweinyddiaeth) Arweinyddiaeth a Rheolaeth e.e. Rheolwr Dechrau'n Deg, Rheolwr Gofal Dydd, Rheolwr Gofal Plant Integredig
Gweithiwr Canolfan Chwarae	Gwaith Chwarae a Gwaith Chwarae Uwch (Lefelau 2,3 a 5)	Gweithiwr chwarae cynorthwyol Cynorthwyydd canolfan chwarae Gweithiwr Chwarae Uwch Weithiwr Chwarae
Gweithiwr Ieuenctid	Gweithiwr Ieuenctid (Lefelau 2 a 3)	Gweithiwr Ieuenctid Cynorthwyol / Gweithiwr Ieuenctid Arweinydd Iau
Rheolaeth Ysgolion a Holl Feysydd Cefnogi		
Busnes a Gweinyddu	Arweinyddiaeth / Rheolaeth (Lefelau 2-5)	Rheolwr Busnes Ysgol Rheolwr Dysgu

		Rheolwr Swyddfa
	Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad (Lefelau 3 a 4)	Gweithiwr Prosiect / Cefnogi Tiwtor Swyddog Cefnogi Teuluoedd Cynghorydd Gyrfaoedd
	Gweinyddu Busnes – gweinyddu (Lefelau 2-4)	Gweinyddwr/Clerc Cynorthwyydd Personol Ysgrifennydd Ysgol Derbynnydd
	Gwasanaeth i Gwsmeriaid (Lefelau 2 a 3)	Derbynnydd
Arlwyo a lletygarwch	Gwasanaethau Glanhau a Chefnogi'r Amgylchedd (Lefelau 2-4)	Glanhawyr / Arweinyddion Timau Glanhau Gofalwr
	Lletygarwch ac Arlwyo (Lefelau 2 a 3)	Cogydd
Rheoli Cyfleusterau / Eiddo	Rheoli Cyfleusterau (Lefelau 2-5)	Rheolwr / Gofalwr Eiddo
Digidol	Gweithwyr Proffesiynol TG, Meddalwedd, y We a Thelathrebu (Lefelau 2-4)	Technegydd TGCh / Rheolwr Rhwydwaith TGCh
	Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol (Lefelau 3 a 4)	Technegydd TGCh / Rheolwr Rhwydwaith TGCh
	Defnyddwyr TG (Lefelau 2 a 3)	Cymorth Swyddfa Cynorthwyydd Addysgu Technegydd / Dylunydd Gwefannau
Cyfreithiol, Cyfrifyddu a Chyllid	Cyfrifyddu (Lefelau 2-4)	Swyddog Cyllid / Rheolwr Swyddfa
Iechyd a Gwyddoniaeth	Technegwyr Labordai a Gwyddoniaeth (Lefelau 2 a 3)	Technegydd Gwyddoniaeth
	Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Lefelau 2 a 3)	Gweithiwr Gofal Plant Cynorthwyydd Gofal Plant
Arall	Arweinyddiaeth Gweithgarwch (Lefel 2)	Arweinydd Gweithgarwch Hyfforddwr Awyr Agored Hyfforddwr Chwaraeon Cymunedol

ATODIAD B – Rhestr o ddarparwyr Hyfforddiant Dysgu Seiliedig ar Waith a gymeradwywyd yng Nghymru

ARDAL DE CYMRU:

ALS Training
01633 663000
Helena Williams / helena.williams@alstraining.org.uk
www.alstraining.org.uk

ACT Training
02920 464727
Caroline Cooksley / ccooksley@acttraining.org.uk
www.acttraining.org.uk

Babcock Training Limited
02920 239112
Gertie Burke / gertie.burke@babcockinternational.com
www.babcockinternational.com

Coleg Caerdydd a'r Fro / Consortiwm QSA
01446 748212
Andrew Whitcombe / awhitcombe@cavc.ac.uk
www.cavc.ac.uk

CITB
01656 655226
Alison Dudfield / alison.dudfield@citb.co.uk
www.citb.co.uk

Coleg Gŵyr Abertawe
01792 284121 / 01792 284275
Rachel Searle / rachel.searle@gcs.ac.uk
www.gcs.ac.uk/

ISA Training
01656 869986
Dawn Elliott / dawn.elliott@isatraining.co.uk
www.isatraining.co.uk

ITEC Training Solutions
02920 663800
Ceri Murphy / c.murphy@itecskills.co.uk
www.itecskills.co.uk

Marr Corporation t/a T2 Group
02920 799133

Jo Harvey / jo.harvey@t2group.co.uk
www.t2business.co.uk

Coleg Sir Benfro
01437 753177
Berni Tyler / b.tyler@pembrokeshire.ac.uk
www.pembrokeshire.ac.uk

People Plus
01443 686746
Denise Lacey / denise.lacey@peopleplus.co.uk
www.peopleplus.co.uk

Rathbone Training
02920 674943
Marc Lasseter / marc.lasseter@rathboneuk.org
www.rathboneuk.org

Academi Sgiliau Cymru yn Grŵp NPTC
01639 648325
Louise Akers / louise.akers@nptcgroup.ac.uk
www.skillsacademywales.co.uk

The CAD Centre UK Ltd
01792 644178
Linda Thomas / linda.thomas@cadcentreuk.com
www.cadcentreuk.com

Hyfforddiant Torfaen
01633 875929
Ceri Moffatt / training@torfaen.gov.uk
www.training.torfaen.gov.uk

Partneriaeth Sgiliau Galwedigaethol
01639 893229
Tammy Barker / tammyb@vsptraining.co.uk
www.vsptraining.co.uk

ARDAL CANOLBARTH CYMRU

Cwmni Hyfforddiant Cambrian
01938 555893
Katy Godsell / apprenticeships@cambriantraining.com
www.cambriantraining.com

GOGLEDD CYMRU

Coleg Cambria
01978 311794

Grŵp Llandrillo Menai
01248 370125

employers@cambrian.ac.uk
www.cambria.ac.uk

Jane Howells / wblconsortium@gllm.ac.uk
www.gllm.ac.uk

ATODIAD C: Gwella hygyrchedd prentisiaethau

Rydym yn creu llwybrau cliriach i brentisiaethau ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed, drwy hwyluso'r hyfforddiant sgiliau a hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddysgu galwedigaethol ac opsiynau ar gyfer prentisiaethau.

CYSTADLAETHAU SGILIAU

Caiff ymgyrchoedd blynyddol eu cynnal i godi proffil y prentisiaethau ymhlith pobl ifanc. Mae Cystadlaethau Sgiliau yn caniatáu i ddysgwyr galwedigaethol ddatblygu ac maent yn arddangos eu sgiliau ar lefel y DU a'r byd. Cymru oedd y rhanbarth gorau o ran Cystadleuwyr Sgiliau yn y gystadleuaeth WorldSkills UK Live ddiwethaf. Roedd gennym 99 o gystadleuwyr (sydd ychydig yn fwy nag 20% o gyfanswm y DU). Cymry yw 25 o sgwad y DU ar gyfer WorldSkills Rwsia yn 2019, ac mae 4 yn cynrychioli Cymru a'r DU yn Euroskills Budapest ym mis Medi 2018.

Nod y cystadlaethau yw codi proffil sgiliau yng Nghymru ac maent yn rhoi cyfle i ddisgyblion ysgol, myfyrwyr, hyfforddeion a phrentisiaethau yng Nghymru herio, meincnodi a gwella eu sgiliau. Caiff amrywiol gystadlaethau eu cynnal bob blwyddyn ar draws sawl sector, gan gynnwys: Cyfryngau a Chreadigol, Adeiladu ac Isadeiledd, Peirianneg a Thechnoleg, TG a Menter, a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phroffesiynol. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn https://www.inspiringskills.wales/cystadleuaeth-sgiliau-cymru

DIGWYDDIADAU 'RHOWCH GYNNIG ARNI'

Mae'r cynllun "Rhowch Gynnig Arni" wedi'i anelu at bobl ifanc 11-16 oed, er mwyn iddynt roi cynnig ar sgiliau newydd drwy gymryd rhan mewn amryw o weithgareddau rhyngweithiol a hwyliog - fel rhith-weldio, rhaglennu robotiaid a defnyddio efelychydd gyrru tractor.

Ers ei sefydlu ym Mawrth 2016 hyd at Fawrth 2017, mae'r cynllun "Rhowch Gynnig Arni" wedi ymgysylltu â 129 o ysgolion yng Nghymru, 22 awdurdod lleol a 55,000 o bobl ifanc.

https://www.haveagowales.co.uk/

PRENTISIAETHAU IAU (Rhaglen Beilot)

Mae Prentisiaethau Iau yn cynnig cyfle i ddisgyblion blwyddyn 10 ac 11 astudio amser llawn am yrfa yn y dyfodol mewn coleg o 14 oed. Mae'r rhaglen yn cynnig rhaglen ddwy flynedd o addysg gysylltiedig â gwaith gyda phrofiad gwaith wedi'i gynnwys, ochr yn ochr â chwrs Lefel 2 sydd gyfystyr â phedwar neu bump TGAU, mewn ystod o wahanol lwybrau galwedigaethol. Bydd pob prentis hefyd yn astudio TGAU mewn Mathemateg a Saesneg ochr yn ochr â'r maes o'u dewis. Mae nifer o godau rhaglenni yn y cyfeiriadur i adlewyrchu gwahanol lwybrau Prentisiaethau Iau.

Dylai pob Prentis Iau gael mynediad at gefnogaeth gydag addysgu a dysgu, cymorth i reoli ymddygiad, a Swyddog Lles dynodedig i gefnogi materion o ddydd i ddydd a darparu gofal bugeiliol.

Nod Prentisiaeth Iau yw sicrhau bod y dysgwr yn gyflogadwy neu'n barod i symud ymlaen i gwrs galwedigaethol lefel uwch neu brentisiaeth yn 16 oed.

Caiff y Rhaglen Prentisiaethau Iau ei hariannu'n bennaf gan yr Awdurdod Lleol ac felly mae'n hanfodol bod cytundeb rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Coleg cyn y cytunir ar y ddarpariaeth.

RHAGLEN PARATOI AR GYFER PRENTISIAETH / RHAGLENNI UWCH

Cynllun ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed, sy'n eu galluogi i ennill sgiliau sylfaenol a'u cynorthwyo i symud ymlaen i gyflogaeth ac i brentisiaeth o ansawdd uchel. Mae'r rhaglen hon yn cael ei harwain gan gyflogwyr.

Mae Rhaglenni Uwch ar gael ar lefelau 2 a 3 mewn tri maes Sector Pwnc; Peirianneg, Adeiladu a Thechnoleg Gwybodaeth. Prif nod y rhaglenni Uwch yw paratoi cyfranogwyr at fynd i gyflogaeth drwy'r Rhaglen Brentisiaethau lle y byddant yn gweithio tuag at fframwaith Prentisiaeth.

Mae Rhaglenni Uwch yn cynyddu'r nifer safonol o oriau dysgu a ddarperir gan Sefydliadau Addysg Bellach (FEI) o isafswm o 16 awr yr wythnos hyd at uchafswm o 30 awr yr wythnos i gwmpasu cwricwlwm penodol i gwrdd ag anghenion cyflogwyr; darparu cymwysterau i ddysgwyr a fydd yn cwrdd ag anghenion a nodwyd gan gyflogwyr yn y rhanbarth; a defnyddio ymgysylltu uniongyrchol gan gyflogwyr drwy elfen lleoliad gwaith y rhaglenni dysgu.

Mae manyleb ar wahân i bob un o'r Rhaglenni Uwch, yn cynnwys gofynion mynediad, sydd wedi ei rhoi i ddarparwyr. Mae copïau pellach ar gael drwy wneud cais i post16planningandfunding@gov.wales.

ATODIAD D: Papur Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus – "Egwyddorion a chanllawiau i gefnogi cynllunio gweithlu ar y cyd mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru"

Cyhoeddodd Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus bapur ym mis Gorffennaf 2017 ar egwyddorion a chanllawiau i gefnogi cynllunio gweithlu ar y cyd.

Datblygwyd y ddogfen ar y cyd ag aelodau o is-grŵp Cynllunio'r Gweithlu a Symudedd Cyngor Partneriaeth y Gweithlu (is-grŵp WPM).

Ei nod yw cyflawni mwy o gysondeb o ran canlyniadau cynllunio gweithlu a wneir gan sefydliadau unigol. Gobeithir y byddai hyn wedyn yn gwella cyd-drefnu ac yn creu mwy o gysondeb o ran trefniadau cynllunio'r gweithlu mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a galluogi rhannu costau datblygu a chyflawni hyfforddi'r gweithlu.

Gellir cael manylion am gefndir y canllaw, a chopi ohono drwy'r ddolen sydd wedi'i hatodi.

http://publicservicesstaffcommission.gov.wales/guidance-and-reports/principles-guidance-support-joint-workforce-planning-public-services-in-wales?lang=en